Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Canllaw Cyffredinol i Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru

Chwefror 2022

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Amserlen | 4 |
| Atodiad 1: Rhestr o dermau, diffiniadau a meini prawf | 7 |
| Atodiad 2: Diffiniadau o Ffurfiau ar Gelfyddyd | 9 |
| Atodiad 3: Diffiniadau o Gelfyddydau Gweledol: | 11 |
| Atodiad 4: Diffiniadau o Grefft a Ffurfiau Celfyddyd Gymhwysol | 12 |
| Atodiad 5: Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal | 13 |
| Effaith y pandemig | 20 |
| Arddangosfeydd o'r celfyddydau gweledol a chrefftau a'r celfyddydau cymhwysol | 21 |
| Gwaith wedi'i dargedu neu ymgysylltu (AY-BD) | 22 |
| Cyfranogi plant a phobl ifanc | 23 |
| Gweithgarwch Celfyddydau Cyfranogol Cyffredinol | 26 |
| Cwmnïau Perfformio/Teithio | 29 |
| Darlledu ac ar-lein | 32 |
| Ffilm | 35 |
| Gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol | 38 |
| Lleoliadau Cyflwyno | 41 |
| Hyfforddiant, gweithdai neu ddigwyddiadau | 44 |
| Tenantiaid a Phreswyliaethau Artistiaid | 46 |
| Sgyrsiau a sesiynau holi ac ateb | 47 |
| Perfformiad amgylcheddol | 48 |
| Gweithwyr Llawrydd | 51 |
| Cyrff llywodraethu/byrddau ymddiriedolwyr | 53 |

## Cyflwyniad

Bwriad y canllaw hwn yw eich helpu i lenwi arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru. Mae llenwi'r arolwg yn un o ofynion sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru. Mae'r canllaw yn ymdrin â rhai o'r themâu cyffredinol sydd yn yr arolwg drwyddo draw, yn ogystal â'r diffiniadau o ffurfiau celfyddyd. Yn ychwanegol at hyn, mae gan bob adran o'r arolwg ei ganllaw penodol ei hun i'ch helpu drwyddo.

Darllenwch y canllawiau yn ofalus. Os oes angen unrhyw gymorth arnoch, cysylltwch â ni: ymchwil@celf.cymru

### Strwythur yr Arolwg

Mae'r rhestr isod yn dangos holl adrannau'r arolwg. Dim ond ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn yr ail arolwg hanner blwyddyn y mae angen i chi lenwi'r adran am gyflogaeth a byrddau rheoli.

- Effaith y pandemig
- Arddangosfeydd
- Gweithgaredd cyfranogol i blant a phobl ifanc
- Gweithgaredd cyfranogol cyffredinol
- Teithio gwaith
- Darllediadau ac ar-lein
- Ffilmiau
- Gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol
- Perfformiadau Cyhoeddus Byw mewn Lleoliadau Cyflwyno
- Hyfforddiant, gweithdai neu ddigwyddiadau
- Preswylfeydd tenantiaid ac artistiaid
- Sgyrsiau a sesiynau holi ac ymateb
- Perfformiadau amgylcheddol
- Cyflogaeth a byrddau rheoli
- Cyflogaeth
- Gweithwyr llawrydd
- Gwirfoddolwyr
- Cyrff llywodraethu

## Cyflwyno eich Arolwg

Rydym ni'n eich annog i fewnbynnu eich data ar sail prosiect unigol gan ddefnyddio'r templed Excel i'ch helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am eich casgliad o ddata a lleihau'r angen ichi agregu eich gwaith am y 6 mis.

# Amserlen

Bydd hanner cyntaf yr arolwg yn casglu data o 1  Ebrill tan 30 Medi, a'r ail hanner yn casglu data o 1 Hydref tan 31 Mawrth. Byddwch yn derbyn ebost ym mis Mawrth ac Mis Medi yn hatgoffa chi i cyflwyno eich Templed Excel **neu** i gyflwyno eich data ar-lein.

Rydym ni'n defnyddio'r data i gynhyrchu ystadegau swyddogol a gwahanol adroddiadau a ffeithluniau sydd ar ein gwefan: https://arts.wales/cy/amdanom-ni/ymchwil/arolwg-portffolio-celfyddydol-cymru

Os oes gennych anghenion penodol o ran adrodd data yr hoffech eu trafod gyda ni, cysylltwch â ni: ymchwil@celf.cymru

## Dewis Ieithoedd

Dyma'r dewisiadau iaith  yn yr arolwg:

Saesneg, Cymraeg, Dwyieithog, Amlieithog, Arall ac Iaith heb fod yn berthnasol.

**Dwyieithog** – rhaniad 50:50 o'r Gymraeg a'r Saesneg yn unig

**Arall** - os cyflwynwyd y cynhyrchiad mewn iaith ar wahân i Gymraeg neu Saesneg

**Amlieithog** - os nad oedd y cynhyrchiad yn cynnwys Cymraeg A Saesneg yn unig ond yn cynnwys dwy neu fwy o ieithoedd; e.e. Cymraeg, Saesneg a Groeg

**Iaith heb fod yn berthnasol** – mae'r dewis hwn ar gael yn unig ar gwestiynau penodol lle mae'n synhwyrol ei gynnwys.

## Gwaith digidol

Yn y cwymplenni gallwch nodi a oedd y gwaith wyneb yn wyneb neu'n ddigidol. Mae diffiniadau am waith digidol yn y nodiadau hofran (trionglau coch yng nghornel y gell).

## Nodweddion Gwarchodedig

Ym mhob adran o'r arolwg mae set o gwestiynau yn gofyn i chi am waith y gallasech fod wedi ei gyflwyno sydd wedi ei dargedu'n benodol at wahanol grwpiau yn y gymuned. Grwpiau'r 'nodweddion gwarchodedig' yw'r rhain, ac y mae gan Gyngor y Celfyddydau gyfrifoldeb cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i sicrhau bod unrhyw un sy'n gweithio i fudiad celfyddydol sy'n derbyn ein cyllid, neu sy'n defnyddio gwasanaeth gan fudiad felly, yn cael eu trin yn deg. O'r herwydd, mae gofyn i ni fonitro amrediad a'r math o bobl a gyflogir yn eich mudiad a faint o weithgaredd yn eich rhaglen sy'n cael ei dargedu at bobl o grwpiau nodweddion gwarchodedig penodol.

Mae gwneud y celfyddydau yn hygyrch i bawb hefyd yn un o'n hamcanion allweddol yn ein cynllun corfforaethol: https://arts.wales/sites/default/files/2019-02/Cynllun_Corfforaethol_2018-23.pdf

Mae wyth o nodweddion gwarchodedig pobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Dyma hwy:

- Anabledd
- Rhywedd
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Oedran (pobl dros 50 a Phlant a Phobl Ifanc)

Hoffem hefyd wybod am dargedu siaradwyr Cymraeg a chynulleidfaoedd teuluol, ac mae cwestiynau ychwanegol am y grwpiau yma.

Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:
https://www.equalityhumanrights.com/en/equality-act/protected-characteristics

Mae'r **iaith Gymraeg** yn cael ei gwarchod dan **Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993** a **Mesur yr Iaith Gymraeg 2011**.

Yr unig adran o'r arolwg lle'r ydym yn disgwyl i chi fedru adrodd am amrywiaeth unigolion yw'r un am gyflogaeth. Mae hon yn cael ei hanfon allan yn flynyddol, gydag ail hanner yr arolwg yn y gwanwyn. Efallai y bydd angen i chi osod systemau i fyny i gasglu'r wybodaeth hon ynghyd. Mae enghraifft o ffurflen cydraddoldeb a ddefnyddir gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn yr atodiadau. Mae modd addasu hon i'w defnyddio yn eich mudiad os dymunwch. Dylai casglu'r data hyn aros yn ddienw a gwirfoddol, felly **rydym yn derbyn efallai na fydd modd i chi adrodd am bob maes.**

## Codau post

Yn y rhan fwyaf o adrannau'r arolwg rydym yn gofyn i chi roi codau post y lleoliadau lle cynhaliwyd eich gweithgaredd neu ddigwyddiad. A fyddwch cystal â rhoi enw'r prosiect neu'r digwyddiad, ynghyd â chod post y lleoliad. Bydd hyn yn ein galluogi i gael darlun daearyddol o weithgaredd ar hyd a lled Cymru.

## Cwestiynau Agored a Dewisiadau Naratif

Ar ddiwedd pob un o'r adrannau ar wahân i'r un ar Gyflogaeth, rydym wedi darparu lle i chi rannu mwy o wybodaeth am gwmpas ac effaith eich gwaith. Deilliodd y cwestiwn dewisol hwn o'r ymgynghoriad yn 2018 gyda mudiadau PCC lle cafwyd cais am fwy o gyfle yn yr arolwg i roi mwy o naratif am waith y mudiad. Ni fyddwn yn cynnwys yr wybodaeth hon yn ein cyhoeddiadau ystadegau swyddogol, ond fe'i defnyddir at ddibenion eiriol eraill.

# Atodiad 1: Rhestr o dermau, diffiniadau a meini prawf

## Dewisiadau iaith

Mae'r opsiynau iaith drwy’r arolwg yn cynnwys y rhain:

Saesneg, Cymraeg, Dwyieithog, Amlieithog, Arall ac Iaith heb fod yn berthnasol.

**Dwyieithog** - Rhaniad 50:50 o'r Gymraeg a'r Saesneg

**Arall** - os cyflwynwyd y cynhyrchiad mewn iaith ar wahân i Gymraeg neu Saesneg

**Amlieithog** - os nad oedd y cynhyrchiad yn cynnwys Cymraeg A Saesneg yn unig ond yn cynnwys dwy neu fwy o ieithoedd; e.e. Cymraeg, Saesneg a Groeg

**Iaith heb fod yn berthnasol** – mae’r dewis hwn ar gael yn unig ar gwestiynau penodol lle mae’n synhwyrol ei gynnwys.

## Sesiynau a mynychiadau

**Sesiwn** - Mae un 'sesiwn' yn gallu para am hanner diwrnod neu lai. Nodwch y iaith cafodd y sesiynau ei gyflwyno

**Mynychiadau** – cofnodwch gyfanswm y mynychiadau i sesiynau dan iaith y sesiwn, ni waeth beth yw iaith y cyfranogwyr

**Sesiwn ddigidol** - uwchlwytho fideo wedi'i recordio ymlaen llaw neu'n fyw o weithgaredd cyfranogol

**Mynychiadau i sesiynau digidol** - nifer y gweithiau y mae rhywun yn gweld y sesiwn ddigidol a uwchlwythir.

**Perfformiad digidol** - uwchlwytho fideo wedi'i recordio ymlaen llaw neu’n fyw o berfformiad.

**Mynychiadau i berfformiadau digidol** - nifer y gweithiau y mae rhywun yn gweld yr hyn a uwchlwythir.

## Termau

**Cynhyrchu proffesiynol** - Mae darn o waith yn broffesiynol os yw’r perfformwyr yn cael eu talu ac yn gweithio’n broffesiynol yn y diwydiant. Nid yw perfformiadau â thocynnau yn berfformiadau proffesiynol oni fydd y perfformwyr yn cael eu talu ac yn gweithio’n broffesiynol yn y diwydiant.

**Plant a Phobl Ifanc** - 25 ac iau

**Y Celfyddydau ac Iechyd** - Prosiect sy’n bodloni un neu ragor o'r pedwar maen prawf penodol i’r fath brosiect.

- **Amcanion** - a yw'r prosiect wedi'i anelu at sicrhau canlyniadau iechyd neu les i gyfranogwyr?

- **Partneriaid** - a yw’r Ymddiriedolaeth GIG, Bwrdd Iechyd neu sefydliad trydydd sector megis MIND Cymru neu'r Gymdeithas Alzheimer yn bartner?

- **Lleoliad** - a yw'r prosiect yn digwydd mewn lleoliad gofal iechyd (cartref gofal/ysbyty)?

- **Pwnc** - a yw’r prosiect celfyddydol yn mynd i'r afael â chyflwr/thema iechyd (fel dryswch neu iechyd meddwl)?

## Atodiad 2: Diffiniadau o Ffurfiau ar Gelfyddyd

| Ffurf ar gelfyddyd | Diffiniad |
|---|---|
| Adloniant theatr | Cabare, Comedi, Digrifwyr, Sioeau Cerdd, Pantomeim, Pypedau, Amrywiaeth, Adloniant i'r Teulu. |
| Celf Gyhoeddus | Celf a chrefft weledol wedi'i leoli mewn man cyhoeddus. Celfyddyd tirwedd/amgylcheddol. (Y mae'n gyhoeddus, boed ar eiddo cyhoeddus neu breifat, neu os cafwyd ef gydag arian cyhoeddus neu breifat.) |
| Celfyddydau cyfun/celfyddydau amlddisgyblaethol | Carnifal, gwyliau a digwyddiadau gwirioneddol amlddisgyblaethol, celf gyfun gymunedol.<br><br>Dylid codio gwyliau sy'n canolbwyntio ar un ffurf i'r ffurf benodol hwnnw o gelfyddyd. |
| Celfyddydau Gweledol | Animeiddio, Celfyddyd gain. Celf/darlunio graffig. Celfyddyd fyw. Delweddau symudol (ffilm a fideo artistiaid), Cyfryngau newydd. Cyfryngau digidol. Celfyddyd perfformio. Ffotograffiaeth. Cerflunio. Paentio. Darlunio. Gwneud printiau. Gosodiadau/celf safle-benodol, Celfyddyd aml-gyfryngol, Celfyddyd Sonig, Celfyddyd a gynhyrchir trwy gyfrifiadur, Murluniau. |
| Cerddoriaeth | Bandiau Pres ac Arian. Siambr. Corawl/gospel, Clasurol/cerddorfaol, Cerddoriaeth gymunedol, Clasurol Cyfoes, Cyfoes poblogaidd, Cerddoriaeth gynnar, Baróc. Cerddoriaeth arbrofol ac electronig, Cerddoriaeth jas/byrfyfyr, Gwreiddiau/gwerin, Cerddoriaeth draddodiadol, Cerddoriaeth y byd. Cerddoriaeth ieuenctid, diwylliannol benodol, siop barbwr, cerddoriaeth Wyddelig, cerddoriaeth Gymreig, |

| | |
|---|---|
| | cerddoriaeth Albanaidd, ffliwt/acordion a phibau, Cerddoriaeth arall. |
| Crefft | Serameg, Tecstilau (gan gynnwys gwau a brodwaith) Gemwaith, Arian, Metel Arall, Gwehyddu, Dodrefn, Pren, Lledr, Carreg, Gwydr, Papur (heb gynnwys crefft graffeg), Deunyddiau Synthetig (gan gynnwys plastigau), Cyfryngau Cymysg, Celfyddydau Graffeg (gan gynnwys caligraffeg, ysgrifennu arwyddion a rhwymo llyfrau). |
| Cynhyrchu Ffilm | Unrhyw gynhyrchiad ffilm gan weithdy/grŵp cyfranogi |
| Dawns | Bale, Dawns gymunedol, Dawnsio cyfoes, Dawnsio traddodiadol, Dawnsio ieuenctid, Dawnsio diwylliannol-benodol, Dawnsio Cymreig, Dawnsio Gwyddelig, Dawnsio Albanaidd, Dawnsio De Asiaidd, Dawnsio Affricanaidd, Dawnsio arall. |
| Drama | Theatr plant a phobl ifanc, Dramâu clasurol, Theatr gymunedol, Dramâu cyfoes, Arbrofol (gan gynnwys theatr weledol a digidol), Meim, Theatr gorfforol, Ysgrifennu newydd, Theatr stryd, Syrcas, Theatr mewn addysg, Theatr ieuenctid, Theatr yn y Gymraeg, Drama/theatr arall. |
| Ffilm/Dangosiadau fideo | Pob dangosiad i'r cyhoedd gan gynnwys sinema prif-ffrwd, ffilm arbenigol neu gelfyddydol, a dangosiadau o berfformiadau 'byw' o theatr, opera, bale, etc. |
| Llenyddiaeth | Llenyddiaeth fyw (gan gynnwys perfformio barddoniaeth), Barddoniaeth, Rhyddiaith, ffuglen, ffeithiol, Cyhoeddi (gwaith mewn print ac ar y we), Adrodd storïau, Llenyddiaeth ieuenctid, Digwyddiadau mewn llyfrgelloedd, sgyrsiau llenyddol, llenyddiaeth arall. |
| Opera | Opera a Theatr Gerdd |

## Atodiad 3: Diffiniadau o Gelfyddydau Gweledol:

**Cyfryngau cymysg** - arddangosfeydd lle defnyddiwyd mwy nag un cyfrwng neu ddeunydd, cymysgedd o unrhyw rai o'r ffurfiau celf a restrir yn yr adran hon.

**Safle-benodol** - mae hyn yn cyfeirio at waith celf a ddyluniwyd yn unswydd i leoliad arbennig ac sydd â chydberthynas â'r lleoliad

**2D** - mae hyn yn cynnwys paentiadau, darluniau a ffotograffau, ac nid yw'n cynnwys ffurfiau tri-dimensiwn megis cerfluniau a phensaernïaeth.

**Ffotograffiaeth** - mae'n cynnwys ffotograffiaeth ddigidol a heb fod yn ddigidol

**Cyfryngau digidol** - Celfyddyd a wneir neu a gyflwynir trwy ddefnyddio technoleg ddigidol

**Cerflunio** - celfyddyd tri-dimensiwn a wneir trwy un o bedwar proses sylfaenol: cerfio, modelu, bwrw, adeiladu

**Celfyddydau perfformio** - gweithiau celf a grëir trwy weithredoedd sy'n cael eu perfformio gan yr artist neu gyfranogwyr eraill, a all fod yn fyw neu wedi eu recordio, yn fyrfyfyr neu wedi eu sgriptio. Fel arfer yn cynnwys cyflwyniad byw i gynulleidfa a gall dynnu ar nifer o ffurfiau celf megis ffilm, fideo, ffotograffiaeth a gosodiadau celf

**Celfyddyd sain** - celf sy'n defnyddio sain fel cyfrwng (yr hyn mae wedi ei wneud ohono) ac fel ei destun (am beth mae). Mae celfyddyd sain yn ei hanfod yn rhyngddisgyblaethol.

**Comisiynau Newydd** - comisiwn: cais penodol gan sefydliad ar i artist greu gwaith newydd i'w arddangos, sydd (wedi ei osod allan mewn cytundeb gyda'r artist i gynnwys ffi, cydnabod amser yr artist i ymchwilio i'r gwaith, ei ddatblygu a'i gynhyrchu.)

**Celf Gymunedol** - celf gymunedol yw gweithgaredd celfyddydol wedi ei seilio mewn lleoliad cymunedol, gydag artist proffesiynol.

# Atodiad 4: Diffiniadau o Grefft a Ffurfiau Celfyddyd Gymhwysol

**Arddangosfeydd cyfryngau cymysg** - arddangosfeydd lle defnyddiwyd mwy nag un cyfrwng neu ddeunydd, cymysgedd o unrhyw rai o'r ffurfiau celf a restrir yn yr adran hon.

**Arddangosfeydd amlgyfryngol**- arddangosfeydd lle gwnaed y gwaith celf o amrywiaeth o ddeunyddiau a gall hefyd gynnwys elfen electronig megis sain neu fideo.

**Arddangosfeydd seramig** - celf wedi ei wneud o ddeunyddiau seramig, gan gynnwys clai. Gall fod ar lawer ffurf gan gynnwys crochenwaith celfyddydol, teils, ffigurynnau, cerflunwaith a llestri.

**Arddangosfeydd tecstilau** - celf tecstilau yw'r broses o greu rhywbeth gan ddefnyddio ffibrau sy'n dod o ffynonellau fel deunyddiau, ffabrigau ac edafedd naturiol neu synthetig. Gall ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau.

**Arddangosfeydd gwehyddu** - arddangosfeydd o ddeunyddiau wedi'u gwehyddu, rhyngblethu edafedd, stribedi etc. yn ddeunyddiau.

**Arddangosfeydd gemwaith** - arddangosfeydd o emwaith a grëwyd trwy ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau.

**Arddangosfeydd gwaith gwydr** - mae celfyddyd gwydr yn cyfeirio at ddarnau unigol o gelf sydd wedi eu gwneud yn gyfan gwbl neu yn sylweddol o wydr.

**Arddangosfeydd gwaith metel/arian** - arddangosfeydd o lestri, teclynnau, gemwaith ac addurniadau a wnaed o arian neu fetelau eraill.

**Arddangosfeydd Gwaith Pren** - arddangosfeydd o weithiau celf sydd wedi eu gwneud yn gyfan gwbl neu yn sylweddol o bren.

## Atodiad 5: Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal

Ein gweledigaeth yw Cymru Greadigol lle mae'r celfyddydau yn rhan ganolog o fywyd. Rydym am i bawb sy'n byw yng Nghymru gael mynediad at y celfyddydau, nail ai'n aelod o'r gynulleidfa neu'n gyfranogwr gweithgar.

Dyheuwn am gael cymdeithas sy'n coleddu cydraddoldeb ac sy'n dathlu gwahaniaeth, ble bynnag y gwelir; boed yn hil, rhywedd, rhywioldeb, oed, iaith, anabledd neu dlodi.

I'n helpu i fonitro ein cynnydd ar y daith hon, gofynnwn ichi lenwi'r ffurflen hon drwy ddewis yr opsiynau sy'n eich disgrifio orau. Defnyddiwn y wybodaeth a rowch inni I sicrhau bod ein harian yn cyrraedd amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau. Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio at ddibenion monitro'n unig a chaiff ei phrosesu yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

Bydd y wybodaeth hon yn ein helpu i ddeall cyrhaeddiad ein hysbysebion a'r diddordeb y maent yn ei gynhyrchu ym meddwl ymgeiswyr o bob cefndir. Gwahenir eich atebion rhag eich cais a chânt eu trin yn gyfrinachol. Ni rennir y ffurflen â'r staff sy'n asesu eich cais ac nid effeithia ar unrhyw benderfyniad am eich cais.

Swydd ymgeisiwyd am:

**Rhywedd**

Beth sy'n disgrifio'ch rhyw orau? (rhowch farc yn y blwch perthnasol)

| | |
|---|---|
| Dyn | |
| Di-ddeuaidd | |
| Menyw | |
| Dwi'n defnyddio term arall (nodwch) | |
| Mae'n well gennyf peidio â dweud | |

Ai dyma'r rhywedd a ddyrannwyd ichi pan gawsoch eich geni? (rhowch farc yn y blwch perthnasol)

| | |
|---|---|
| Ie | |
| Na | |
| Mae'n well gennyf peidio â dweud | |

Wyt ti'n draws?

| | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |
| Ddim yn siŵr | |
| Mae'n well gennyf peidio â dweud | |

**Oedran**

Rhowch farc yn y blwch perthnasol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yn llai na 20 | | 20-29 | |
| 30-39 | | 40-49 | |
| 50-59 | | Yn 60 neu'n fwy | |
| Mae'n well gennyf peidio â dweud | | | |

**Statws Perthynas**

Beth sy'n disgrifio'ch statws perthynas orau? (rhowch farc yn y blwch perthnasol)

| | |
|---|---|
| Gweddw / Partner Sifil sydd wedi goroesi ei bartner | |
| Priod / Partneriaeth Sifil | |
| Sengl | |
| Wedi ysgaru / yn Bartner Sifil o'r blaen (ond diddymwyd y bartneriaeth yn gyfreithiol) | |
| Arall (nodwch) | |
| Mae'n well gennyf peidio â dweud | |

### Cyfeiriadedd Rhywiol

Beth sy’n disgrifio’ch cyfeiriadedd rhywiol orau? (rhowch farc yn y blwch perthnasol)

| | |
|---|---|
| Bi | |
| Heterorywiol / Syth | |
| Hoyw / Lesbiaidd | |
| Dwi’n defnyddio term arall (nodwch) | |
| Mae’n well gennyf peidio â dweud | |

### Crefydd / Cred

Beth sy’n disgrifio’ch crefydd neu cred orau? (rhowch farc yn y blwch perthnasol)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Anffyddiwr | | Moslem | |
| Bwdhaidd | | Dim crefydd | |
| Cristion | | Sîc | |
| Hindu | | Arall (nodwch) | |
| Iddew | | Mae’n well gennyf peidio â dweud | |

### Hunaniaeth Genedlaethol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prydeiniwr | | Cymro | |
| Saes | | Arall (nodwch) | |
| Gwyddel o’r Gogledd | | Mae’n well gennyf peidio â dweud | |
| Albanwr | | | |

Ethnigrwydd

Beth sy'n disgrifio'ch ethnigrwydd orau? (rhowch farc yn y blwch perthnasol)

Arabaidd

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arabaidd Prydeinig | | Arabaidd Canol Dwyrain | |
| Arab Cymraeg | | Unrhyw gefndir Arabaidd arall (nodwch) | |
| Arabaidd gogledd Affrica | | Mae'n well gennyf peidio â dweud | |

Asiaidd

| | | | |
|---|---|---|---|
| Asiaidd Prydeinig | | Indiaidd | |
| Asiaidd Cymraeg | | Pakistani | |
| Bangladeshi | | Unrhyw gefndir Asiaidd arall (nodwch) | |
| Tsieineaidd | | Mae'n well gennyf peidio â dweud | |

Du

| | | | |
|---|---|---|---|
| O Affrica | | O'r Caribî | |
| Du Prydeinig | | Unrhyw gefndir du / o Affrica / o'r Caribî arall (nodwch) | |
| Du Cymraeg | | Mae'n well gennyf peidio â dweud | |

Ethnigrwydd Cymysg / Sawl Elfen

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwyn a Asiaidd | | Unrhyw gefndir cymysg / sawl elfen arall (nodwch) | |
| Gwyn a Du o Affrica | | Mae'n well gennyf peidio â dweud | |
| Gwyn a Du o'r Caribî | | | |

Gwyn

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwyn Prydeinig | | Sipsi / Rhoma / Teithiwr | |
| Gwyn Cymraeg | | Unrhyw gefndir gwyn arall (nodwch) | |
| Gwyn Gwyddel | | Mae'n well gennyf peidio â dweud | |

Grŵp Ethnic Arall

| | |
|---|---|
| Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch) | |
| Mae'n well gennyf peidio â dweud | |

Beichiogrwydd a Mamolaeth

A ydych yn feichiog, ar famolaeth neu'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl bod ar famolaeth? (rhowch farc yn y blwch perthnasol)

| | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |
| Mae'n well gennyf peidio â dweud | |

Anabledd

Diffiniad Deddf Cydraddoldebau 2010 o rywun anabl yw un a nam corfforol neu feddyliol a gaiff effaith wael sy'n sylweddol a hirdymor ar allu rhywun i fynd i'r afael a gweithgareddau beunyddiol.

A ydych chi'n adnabod fel person anabl yn ôl y diffiniad cyfreithiol? (rhowch farc yn y blwch perthnasol)

| | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |
| Mae'n well gennyf peidio â dweud | |

Os ‘ydw’, a yw eich anabledd yn gysylltiedig â’r canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Anabledd dysgu (e.e. dyslecsia, dyspracsia) | | |
| Cyflwr/salwch hirdymor (e.e. y fogfa, clefyd y siwgwr, clefyd cwympo, sglerosis ymledol) | | |
| Cyflwr iechyd meddwl (e.e. anorecsia, iselder ysbryd, sgitsoffrenia) | | |
| Nam corfforol (e.e. colli coes neu fraich, defnyddio cadair olwyn, problemau trin pethau a’ch dwylo) | | |
| Nam meddyliol (e.e. awtistiaeth, syndrom Asperger, anaf i’ch pen) | | |
| Nar ar y synhwyrau (e.e. dall, byddar, glawcoma, nam ar y clyw, nam ar y golwg) | | |
| Arall (nodwch) | | |
| Mae’n well gennyf peidio â dweud | | |

Mae’r model cymdeithasol o anabledd yn dweud bod pobl yn anabl oherwydd rhwystrau mewn cymdeithas a’r ffordd y mae cymdeithas wedi trefnu, yn hytrach na oherwydd nam neu wahaniaeth unigolyn.

A ydych chi’n adnabod fel person anabl yn ôl y diffiniad cymdeithasol? (rhowch farc yn y blwch perthnasol)

| | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |
| Mae’n well gennyf peidio â dweud | |

Os 'ydw', a yw eich anabledd yn gysylltiedig â'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Anabledd dysgu (e.e. dyslecsia, dyspracsia) | |
| Cyflwr/salwch hirdymor (e.e. y fogfa, clefyd y siwgwr, clefyd cwympo, sglerosis ymledol) | |
| Cyflwr iechyd meddwl (e.e. anorecsia, iselder ysbryd, sgitsoffrenia) | |
| Nam corfforol (e.e. colli coes neu fraich, defnyddio cadair olwyn, problemau trin pethau a'ch dwylo) | |
| Nam meddyliol (e.e. awtistiaeth, syndrom Asperger, anaf i'ch pen) | |
| Nar ar y synhwyrau (e.e. dall, byddar, glawcoma, nam ar y clyw, nam ar y golwg) | |
| Arall (nodwch) | |
| Mae'n well gennyf peidio â dweud | |

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

## Effaith y pandemig

Yma nodwch effaith y pandemig ar eich sefydliad, gan gynnwys yr effaith ar eich staff, eich cynulleidfaoedd ac a allech/a allwch gynnal eich gweithgarwch ar-lein. Cynhwyswch unrhyw beth perthnasol.

## Arddangosfeydd

Yn yr adran hon, hoffem i chi ddweud wrthym am eich arddangosfeydd o gelfyddydau gweledol a chrefftau a chelfyddydau cymhwysol sydd wedi'u curadu'n broffesiynol. Mae diffiniad o gelfyddydau gweledol a chrefftau a chelfyddydau cymhwysol yn y dosbarthiadau Ffurfiau ar Gelfyddyd yn y Canllaw Cyffredinol.

### Llwyfan a chelfyddyd

Dewiswch a oedd eich arddangosfa yn un fyw mewn man arddangos, digidol yn fyw, digidol wedi'i recordio ymlaen llaw neu daith o amgylch a oedd yn rhithiol mewn tri dimensiwn. Oedd yn gelfyddyd weledol, neu'n grefft a chelfyddyd gymhwysol?

### Nifer y mynychiadau

**Sylwch:** Dylai'r arddangosfeydd a gynhwysir yn yr adran hon fod wedi eu curadu'n broffesiynol gyda gwybodaeth ategol, deunydd dehongliadol, a gwybodaeth ar eich gwefan.

Yr ydym yn deall fod gwahanol ddulliau o weithio allan ac amcangyfrif presenoldeb mewn arddangosfeydd. Bydd y dull mwyaf priodol yn dibynnu ar eich lleoliad a'r math o arddangosfa. Wedi i chi roi'r data am yr arddangosfeydd, rhowch enwau'r arddangosfeydd a'ch dull o weithio allan/amcangyfrif y presenoldeb yn y blwch sylwadau.

### Math o Arddangosfa

Dyma rai cwestiynau am eich arddangosfa a'r artistiaid a oedd yn rhan ohoni. Gallwch ychwanegu unrhyw beth arall yn y golofn sylwadau (colofn O).

Teithio eich arddangosfeydd (P-U)

Nodwch yn unig eich arddangosfeydd chi. Faint o'ch arddangosfeydd a oedd i'w gweld mewn lleoliadau eraill yn ystod y 6 mis yng Nghymru neu'r tu allan? Rhestrwch y codau post neu'r lleoliadau lle cyrhaeddodd yr arddangosfeydd.

### Celf yn y gymuned (V-X)

Mae gennym ddiddordeb mewn gwybod am waith eich mudiad yn y gymuned.

**Sylwch:** Celf gymunedol yw gweithgaredd sydd wedi ei leoli mewn cymuned, ac sy'n cynnwys artist proffesiynol.

Os cynhaliodd eich mudiad arddangosfeydd mewn safleoedd eraill yn eich cymuned, neu os oeddent wedi eu seilio ar waith artistiaid cymunedol, atebwch y cwestiynau hyn. Ar gyfer arddangosfeydd a gynhaliwyd mewn safleoedd eraill, rhowch hefyd god post y safle lle cynhaliwyd yr arddangosfa.

### Cyhoeddiadau Arddangosfeydd (Y-AD)

Nodwch unrhyw lenyddiaeth a gynhyrchwyd i gyd-fynd ag arddangosfa. Mae hyn yn cynnwys catalogau arddangosfeydd, ond nid deunydd hyrwyddo. Rhowch nifer y teitlau unigol a gynhyrchwyd ac iaith argraffu'r teitl.

### Nodweddion gwarchodedig (AE-AX)

O gyfanswm yr arddangosfeydd, faint o'ch arddangosfeydd a guradwyd gan y grwpiau canlynol (AE-AN) neu'n eu targedu (AR-AX):

- Pobl Anabl
- Pobl ethnig a diwylliannol amrywiol
- Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol
- Siaradwyr Cymraeg
- Trawsrywiol
- Pobl Hŷn (50+ oed)
- Pobl â chred grefyddol benodol neu ddibenion eraill cysylltiedig â chrefydd
- Merched beichiog a mamau newydd
- Teuluoedd

Os targedwyd yr arddangosfeydd at fwy nac un grŵp, yna cofnodwch y gweithgaredd hwn yn erbyn pob grŵp cymwys.

Bydd y data a gesglir yn cael ei roi at ei gilydd yn ein hadroddiadau Cydraddoldeb a Monitro fel y gallwn edrych ar dueddiadau mewn gweithgaredd a dargedir yn benodol.

## Gwaith wedi'i dargedu neu ymgysylltu (AY-BD)

Nodwch eich meysydd targedol:

- Celfyddydau a Iechyd
- Pobl Ddigartref
- Teuluoedd ar incwm isel
- Ffoaduriaid a Cheiswyr lloches
- Cymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg (NEETs yn Saesneg)

Os ydych wedi dewis unrhyw un o'r grwpiau, esboniwch yn fyr sut y cawsant eu targedu yng ngholofn BE.

# Cyfranogi plant a phobl ifanc

Yma hoffem wybod am weithgarwch cyfranogol celfyddydol a gynhalioch sy'n targedu plant a phobl ifanc (**25 oed ac iau**). Nodwch unrhyw gyfranogi arall yn adran Cyfranogi Cyffredinol.

Nodwch faint o'ch prosiectau, eich sesiynau a'ch mynychiadau a ddigwyddodd ym mhob un o'r celfyddydau. Er enghraifft, un prosiect yw cynnal cyfres o ddosbarthiadau dawns gyda'r nos. Os yw'r dosbarth yn digwydd ar 6 noson, 6 sesiwn ydynt. Os yw 10 yn dod i bob sesiwn, cyfanswm y mynychiadau yw 60.

Cynhwyswch ddim ond sesiynau cyfranogol yr ydych chi wedi'u cynnal fel rhan o'ch rhaglen, gan gynnwys sesiynau ar safleoedd allanol. Peidiwch â chynnwys llogi lle yn eich adeilad am weithdai os mai dyna'r unig fewnbwn a gawsoch i'r gweithgarwch.

## Sesiynau a mynychiadau

Rhaid nodi sesiynau a mynychiadau a'r iaith y cawsant eu cyflwyno ynddi. **Dylai fod rhagor o fynychiadau na sesiynau bob tro a rhaid i iaith y sesiynau gyfateb ag iaith y mynychiadau.** Er enghraifft, ni allech gael 3 sesiwn yn y Gymraeg ac 20 mynychiad dwyieithog – hyd yn oed os yw'r bobl sy'n mynychu yn siarad y ddwy iaith.

**Sesiynau:** gall un sesiwn wyneb yn wyneb bara am hanner diwrnod neu lai. Felly bydd cwrs rhwng 9am a 5pm, yn ddwy sesiwn, a gweithdy rhwng 1pm a 6pm yn un sesiwn. Ar gyfer gweithgarwch digidol, un uwchlwythiad yw un sesiwn.

**Mynychiadau:** ar gyfer sesiwn wyneb yn wyneb, dyma nifer y mynychiadau iddi. Ar gyfer sesiynau digidol, dyma nifer y gweithiau y gwelwyd yr uwchlwythiad o'r sesiwn.

**Prosiectau drwy'r post:** nifer y sesiynau yw nifer y mathau o becynnau. Er enghraifft, o anfon 248 pecyn sydd i gyd yr un fath at 248 o gyfeiriadau, cewch 1 sesiwn a 248 mynychiad.

Dyma ein dewisiadau iaith:

- Cymraeg
- Saesneg
- Arall
- Dwyieithog
- Amlieithog
- Iaith amherthnasol

Mae'r diffiniadau i'w gweld yn y cyflwyniad i'r canllawiau. Mae diffiniad o'r celfyddydau gweledol a chrefftau a chelfyddydau cymhwysol yn y rhestr o'r celfyddydau yn y Canllawiau Cyffredinol.

Mae'r cwestiynau yma'n cael eu rhannu'n 5 isadran:

## Gweithgarwch cyfranogol mewn ysgol neu leoliad addysg (E-R)

Dim ond sesiynau cyfranogol sy'n targedu plant a phobl ifanc yn yr ysgol/addysg y dylech eu cynnwys. Yng ngholofnau P a Q, nodwch nifer yr ysgolion gwahanol yr ymwelodd eich sefydliad â nhw, yn ystod oriau ysgol neu y tu allan iddynt. Mae Colofn R ar gyfer unrhyw beth arall.

## Gweithgarwch cyfranogol y tu allan i'r ysgol neu'r lleoliad addysg (S-AC)

Dim ond sesiynau cyfranogol sy'n targedu plant a phobl ifanc y tu allan i'r ysgol/addysg y dylech eu cynnwys. Nodwch ddim ond sesiynau cyfranogol y mae eich sefydliad wedi'u cynnal fel rhan o'ch rhaglen. Os ydych yn cynnal sesiynau mewn safleoedd allanol nad ydynt yn rhai addysgol, dylech eu cynnwys. Os ydych wedi llogi lle yn eich lleoliad ar gyfer gweithdai a dyma'r unig fewnbwn a gawsoch i'r broses, peidiwch â'u cynnwys.

Mae Colofn AC ar gyfer unrhyw beth arall. Yng ngholofnau AD-AG, nodwch ba oedrannau y targedodd pob prosiect (y tu mewn a'r tu allan i leoliad yr ysgol).

## Gweithgarwch cyfranogol rheolaidd ym maes theatr ieuenctid, cerddoriaeth, dawns a chelfyddydau perfformio (AH-AV)

Mae'r grwpiau yma'n wahanol oherwydd iddynt gyfarfod yn rheolaidd ac yn aml yn arwain at berfformiadau cyhoeddus. Er enghraifft, côr sy'n cwrdd yn wythnosol am ddeg wythnos, gan arwain at gyngerdd, yn hytrach na gweithdy canu sy'n digwydd unwaith. Yng ngholofnau AT ac AU, nodwch unrhyw berfformiadau a lwyfannwyd oherwydd eich prosiectau a nifer y mynychiadau i'r perfformiad. Mae Colofn AV ar gyfer unrhyw wybodaeth arall.

## Gweithgarwch cyfranogol plant a phobl ifanc sy'n targedu'r nodweddion gwarchodedig (AW-BE)

Pa brosiectau a dargedodd y grwpiau canlynol:

- Pobl anabl
- Pobl ddiwylliannol ac ethnig amrywiol
- Lesbiaid, hoywon a deurywolion
- Siaradwyr Cymraeg
- Pobl drawsrywiol
- Pobl hŷn (dros eu 50 oed)
- Pobl grefyddol
- Menywod beichiog a mamau newydd
- Teuluoedd

Dim ond grwpiau yr ydych wedi'u targedu'n benodol y dylech eu nodi ac nid rhai yr oedd eich effaith arnynt yn ddamweiniol. **Esboniwch sut rydych wedi targedu'r grwpiau yn y golofn olaf (BM).**

Bydd y data'n cael ei gasglu yn ein hadroddiadau Cydraddoldeb a Monitro fel y gallwn weld tueddiadau mewn gweithgarwch penodol.

## Meysydd targedol (BF-BK)

Nodwch eich meysydd targedol:

- Y Celfyddydau ac Iechyd
- Digartrefedd
- Teuluoedd ar incwm isel
- Ffoaduriaid a/neu geiswyr lloches
- Sipsiwn, Roma a theithwyr
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

**Rhowch godau post lle digwyddodd y gweithgarwch. Os targedoch y meysydd yma, esboniwch sut yn y golofn olaf (BM).**

## Sylwadau (BM)

Blwch sylwadau dewisol yw Colofn BM ichi nodi cyrraedd ac effaith eich gwaith. Efallai y cysylltwn â chi am y wybodaeth yma i'w chynnwys yn ein hadroddiadau eraill ond nid ein hadroddiadau Ystadegau Swyddogol.

## Gweithgarwch Celfyddydau Cyfranogol Cyffredinol

Yma nodwch eich gweithgarwch cyfranogol cyffredinol yn y 6 mis diwethaf nad oedd yn targedu plant a phobl ifanc (y rhai 0-25 oed). Rhowch eich gweithgarwch cyfranogol sy'n targedu plant a phobl ifanc yn y tab Plant a phobl ifanc.

Nodwch faint o'ch prosiectau, eich sesiynau a'r mynychiadau a ddigwyddodd ym mhob celfyddyd. Gall sesiynau cyfranogol fod yn weithdai, dosbarthiadau neu ymarferion (rhowch sgyrsiau a sesiynau holi ac ateb yn eu tab penodol). Er enghraifft, un prosiect yw cyfres o ddosbarthiadau dawns gyda'r nos. Os yw'r dosbarth yn digwydd dros 6 noson, 6 sesiwn ydynt. Os daw 10 i bob sesiwn, nifer y mynychiadau yw 60.

Dim ond sesiynau cyfranogol yr ydych chi wedi'u cynnal fel rhan o'ch rhaglen y dylech eu rhoi, gan gynnwys sesiynau sy'n digwydd mewn safleoedd allanol. Peidiwch â chynnwys llogi lle yn eich adeilad am weithdai os mai dyna'r unig fewnbwn a gawsoch i'r gweithgarwch.

### Sesiynau a mynychiadau

Rhaid nodi sesiynau a mynychiadau a'r iaith y cawsant eu cyflwyno ynddi. **Dylai fod rhagor o fynychiadau na sesiynau bob tro a rhaid i iaith y sesiynau gyfateb ag iaith y mynychiadau.** Er enghraifft, ni allech gael 3 sesiwn yn y Gymraeg ac 20 mynychiad dwyieithog – hyd yn oed os yw'r bobl sy'n mynychu yn siarad y ddwy iaith.

**Sesiynau:** gall un sesiwn wyneb yn wyneb bara am hanner diwrnod neu lai. Felly mae cwrs rhwng 9am a 5pm, yn ddwy sesiwn, a gweithdy rhwng 1pm a 6pm yn un sesiwn. Ar gyfer gweithgarwch digidol, un uwchlwythiad yw un sesiwn.

**Mynychiadau:** ar gyfer sesiwn wyneb yn wyneb, dyma nifer y mynychiadau iddi. Ar gyfer sesiynau digidol, dyma nifer y gweithiau y gwelwyd yr uwchlwythiad o'r sesiwn.

**Prosiectau drwy'r post:** nifer y sesiynau yw nifer y mathau o becynnau. Er enghraifft, o anfon 248 pecyn sydd i gyd yr un fath at 248 o gyfeiriadau, cewch 1 sesiwn a 248 mynychiad.

Dyma ein dewisiadau iaith:

- Cymraeg
- Saesneg
- Arall
- Dwyieithog
- Amlieithog
- Iaith amherthnasol

Mae’r diffiniadau i'w gweld yn y cyflwyniad i’r canllawiau. Mae diffiniad o’r celfyddydau gweledol a chrefftau a chelfyddydau cymhwysol yn y rhestr o’r celfyddydau yn y Canllawiau Cyffredinol.

Mae'r cwestiynau yma mewn 4 isadran:

## Gweithgarwch cyfranogol (E-P)

Nodwch eich sesiynau cyfranogol i’r cyhoedd. Yng ngholofn O, rhowch unrhyw nodiadau i gyd-fynd â’r ffigyrau. Yng ngholofn P, nodwch y codau post lle digwyddodd y gweithgarwch.

## Gweithgarwch cyfranogol sy’n targedu’r nodweddion gwarchodedig (Q-Y)

Pa brosiectau a dargedodd y grwpiau canlynol:

- Pobl anabl
- Pobl ddiwylliannol ac ethnig amrywiol
- Lesbiaid, hoywon a deurywolion
- Siaradwyr Cymraeg
- Pobl drawsrywiol
- Pobl hŷn (dros eu 50 oed)
- Pobl grefyddol
- Menywod beichiog a mamau newydd
- Teuluoedd

Peidiwch â rhoi eich gweithgarwch cyfranogol sy’n targedu plant a phobl ifanc yma. Dim ond grwpiau yr ydych wedi'u targedu'n benodol y dylech eu nodi ac nid rhai yr oedd eich effaith arnynt yn ddamweiniol. Esboniwch sut rydych wedi targedu'r grwpiau yn y golofn olaf (AP).

Bydd y data yn cael ei gasglu yn ein hadroddiadau Cydraddoldeb a Monitro fel y gallwn weld tueddiadau mewn gweithgarwch targedol.

## Meysydd targedol (Z-AE)

Nodwch eich meysydd targedol:

- Y Celfyddydau ac Iechyd
- Digartrefedd
- Teuluoedd ar incwm isel
- Ffoaduriaid a/neu geiswyr lloches
- Sipsiwn, Roma a theithwyr

- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Rhowch godau post lle digwyddodd y gweithgarwch. Os targedoch y meysydd yma, esboniwch sut yn y golofn olaf (BM).

## Perfformiadau a ffilmiau sy'n deillio o weithgarwch cyfranogol (AF-AO)

Nodwch unrhyw berfformiadau amatur (di-dâl a chan bobl nad ydynt yn gweithio yn y diwydiant) neu ffilmiau sydd wedi deillio'n uniongyrchol o'ch gweithgarwch cyfranogol cyffredinol.

Sawl ffilm a sawl sgriniad a ddigwyddodd yn y 6 mis? Os digwyddodd hyn yn ddigidol neu wedi'i recordio ymlaen llaw, un uwchlwythiad yw un perfformiad.

## Sylwadau (AP)

Blwch sylwadau dewisol yw Colofn AP ichi nodi cyrraedd ac effaith eich gwaith. Efallai y cysylltwn â chi am y wybodaeth yma i'w chynnwys yn ein hadroddiadau eraill ond nid ein hadroddiadau Ystadegau Swyddogol.

# Cwmnïau Perfformio/Teithio

Llenwch yr adran hon os yw eich mudiad yn cynhyrchu unrhyw fath o waith perfformio ar gyfer y cyhoedd. Gallai hyn gynnwys pob cwmni teithio (cerddoriaeth, opera, dawns a theatr) ac unrhyw leoliadau gyda chwmnïau cynhyrchu preswyl

Mae’r cwestiynau yn yr adran hon yn ymdrin â gweithgaredd eich mudiad dros y chwe mis a aeth heibio ac y maent yn cynnwys: nifer y cynyrchiadau, nifer y perfformiadau a’r niferoedd oedd yn bresennol yn y perfformiadau

## Perfformiadau a mynychiadau

Rhaid nodi perfformiadau a mynychiadau a'u hiaith. **Dylai fod rhagor o fynychiadau na pherfformiadau bob tro a rhaid i iaith y perfformiadau gyfateb i iaith y mynychiadau.** Er enghraifft, ni allech gael 3 pherfformiad yn y Gymraeg ac 20 o fynychiadau dwyieithog – hyd yn oed os yw'r bobl sy'n mynychu yn gallu siarad y ddwy iaith.

**Nodyn am sesiynau:** byddant yn berfformiadau digidol neu fyw. Am y rhai digidol, un uwchlwythiad o fideo wedi'i recordio ymlaen llaw neu’n fyw fydd yn un perfformiad. Un uwchlwythiad fydd un sesiwn.

**Nodyn am fynychiadau:** dyma naill ai nifer y mynychiadau i ddigwyddiad byw neu ar gyfer digwyddiadau digidol, nifer y gweithiau y gwelwyd yr uwchlwythiad.

Dyma ein dewisiadau iaith:

- Cymraeg
- Saesneg
- Arall
- Dwyieithog
- Amlieithog
- Iaith amherthnasol

Mae’r diffiniadau i'w gweld yn y cyflwyniad i’r canllawiau. Mae diffiniad o’r celfyddydau gweledol a chrefftau a chelfyddydau cymhwysol yn y rhestr o’r celfyddydau yn y Canllawiau Cyffredinol.

Mae'r cwestiynau yma wedi'u rhannu’n 6 isadran:

## Grwpiau Nodweddion Gwarchodedig (H-AA)

O'r prosiectau yma, pa rai o'ch prosiectau a arweiniwyd gan* artistiaid o'r grwpiau canlynol?

- Pobl Anabl
- Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol
- Pobl Drawsrywiol
- Pobl Hŷn (50+ oed)
- Pobl â chred grefyddol benodol
- Merched beichiog a mamau newydd
- Teuluoedd
- Plant a Phobl Ifanc (25 ac iau)
- Iaith Gymraeg

*Yr ydym yn ystyried bod mudiadau'n cael eu harwain os yw o leiaf 51% o'u huwch-reolwyr, pwyllgor rheoli, bwrdd neu gorff llywodraethol yn diffinio eu hunain fel rhan o'r grŵp targed penodol (Nodweddion Gwarchodedig).

Wedyn gofynnwn am ba rai o'ch cynyrchiadau a dargedodd grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

**Os dewisoch do ar gyfer unrhyw un o'r grwpiau, esboniwch ychydig yng ngholofn AA.**

## Meysydd targed (AB-AG)

Nodwch eich meysydd targedol:

- Y Celfyddydau ac Iechyd
- Digartrefedd
- Teuluoedd ar incwm isel
- Ffoaduriaid a/neu geiswyr lloches
- Sipsiwn, Roma a theithwyr
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

**Os targedoch y meysydd yma, esboniwch sut yn y golofn olaf (EC).**

## Perfformiadau a mynychiadau (AI-DG)

Yma rhowch gyfanswm eich perfformiadau yn y 6 mis. Ble y digwyddodd y perfformiadau - Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon neu'r tu allan i Brydain? Yng ngholofnau CV-DG, dylai lleoliadau sy'n cynhyrchu roi manylion am eu perfformiadau a ddigwyddodd gartref.

## Perfformiadau hygyrch (DH-DK)

Oedd eich perfformiad yn defnyddio Arwyddeg, ddisgrifio sain, isdeitlau neu unrhyw gymorth hygyrchedd arall?

## Perfformiadau'r stryd (DL)

Gan nad oes modd i ffigyrau am berfformiadau stryd yn wastad fod yn fanwl gywir, rydym yn hapus i chi ddefnyddio amcangyfrif o ffigwr.

## Perfformiadau Newydd (DM-EB)

Pa rai o'ch cynyrchiadau sy'n gomisiynau newydd, ac a oedd yr artistiaid y tu mewn neu'r tu allan i Gymru? Gall comisiwn newydd gynnwys sgriptiau newydd a fersiynau newydd neu addasiadau o waith. Pa rai a ddatblygwyd gan bobl â nodweddion gwarchodedig (DO-DW)? Os cyhoeddoch sgriptiau newydd i gyd-fynd â'r comisiynau newydd, faint o deitlau (nid y rhediad print) a gyhoeddwyd ym mhob iaith (DX-EB)?

## Sylwadau (EC)

Blwch sylwadau dewisol yw Colofn EC ichi nodi cyrraedd ac effaith eich gwaith. Efallai y cysylltwn â chi am y wybodaeth yma i'w chynnwys yn ein hadroddiadau eraill ond nid ein hadroddiadau Ystadegau Swyddogol.

# Darlledu ac ar-lein

Yma nodwch eich gweithgarwch darlledu, ffrydio a fideogynadledda gan gynnwys unrhyw gyfweliadau am eich gwaith. Gallwch gynnwys y gweithgarwch yma mewn tabiau eraill hefyd.

Rhaid cofnodi iaith y darllediadau/ffrydiau a chyfanswm y darllediadau/ffrydiau/cyfweliadau a oedd yn eich atebion blaenorol.

Dyma ein dewisiadau iaith:

- Cymraeg
- Saesneg
- Arall
- Dwyieithog
- Amlieithog
- Iaith amherthnasol

Mae eu diffiniad yn y cyflwyniad.

## Darllediadau teledu a radio rhwydwaith (C-AN)

Nodwch nifer y darllediadau ar wahân o'ch gwaith gan sianeli teledu rhwydwaith (C-U) neu orsafoedd radio (V-AN) a'u rhanbarth darlledu. Gall hyn fod yn waith byw neu wedi'i recordio ymlaen llaw. Peidiwch â chynnwys ffrydio ar-lein yma.

Mae sianeli/gorsafoedd rhwydwaith yn dilyn amserlen ddarlledu benodol (nid ydynt ‘ar alw’ yn unig). Defnyddiwch y blwch sylwadau (AN) i nodi’r sianeli a’r gorsafoedd radio. Gallwch hefyd nodi unrhyw ffigyrau gwylio sy’n hysbys a sut y cawsoch afael arnynt.

## Ffrydio ar-lein a fideo-gynadledda (AO-BC)

Nodwch sawl darn o’ch gwaith oedd ar gael i'w ffrydio ar-lein gan ddarlledwr a oedd ar y rhyngrwyd yn unig neu un ar alw (fel The Opera Platform, iPlayer, Clic, BBC Sounds, All 4). Gallent fod wedi'i ffrydio'n fyw a/neu wedi'i recordio ymlaen llaw (ar alw) ond rhaid iddynt gynnwys gwaith ac nid deunydd hyrwyddo’n unig. Nodwch hefyd fideogynadledda (fel Sŵm a Thimoedd).

Defnyddiwch y blychau sylwadau (AO a BC) i nodi unrhyw ffigyrau gwylio/mynychu a pha lwyfannau.

Cynhwyswch unrhyw beth sydd wedi'i ffrydio ar y cyfryngau cymdeithasol yn y tab, Gwefan a'r Cyfryngau Cymdeithasol.

## Cyfweliadau (BD-BF)

Nodwch nifer y cyfweliadau rydych wedi'u rhoi am eich gwaith ar y teledu, ar y radio neu ar-lein. Gallai ar-lein gynnwys llwyfannau fel YouTube neu erthyglau ar-lein.

## Prosiectau sy’n targedu grwpiau penodol (BG-BP)

Nodwch nifer y darllediadau neu ffrydiau a dargedai’r canlynol:

- Pobl anabl
- Pobl ddiwylliannol ac ethnig amrywiol
- Plant a phobl ifanc (25 oed ac iau)
- Lesbiaid, hoywon a deurywolion
- Siaradwyr Cymraeg
- Pobl drawsrywiol
- Pobl hŷn (dros eu 50 oed)
- Pobl grefyddol neu ddibenion crefyddol eraill
- Menywod beichiog a mamau newydd
- Teuluoedd

Dim ond grwpiau yr ydych wedi'u targedu'n benodol y dylech eu nodi ac nid rhai yr oedd eich effaith arnynt yn ddamweiniol. **Esboniwch sut rydych wedi targedu'r grwpiau yn y golofn olaf (BW).**

Gyda phrosiectau’r Celfyddydau ac Iechyd, gwiriwch eu bod yn cyd-fynd â'r meini prawf yn y nodyn hofran neu edrychwch ar ein rhestr o ddiffiniadau ar ddechrau'r canllawiau.

Casglwn y data yn ein hadroddiadau am Gydraddoldeb a Monitro i weld tueddiadau mewn gweithgarwch targedol.

## Meysydd targedol (BQ-BV)

Nodwch eich meysydd targedol:

- Y Celfyddydau ac Iechyd
- Digartrefedd
- Teuluoedd ar incwm isel
- Ffoaduriaid a/neu geiswyr lloches
- Sipsiwn, Roma a theithwyr
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

## Sylwadau (BW)

Os targedoch y meysydd yma, esboniwch sut yn y golofn olaf (BW).

# Ffilm

Yn yr adran hon mae gennym ddiddordeb mewn pob dangosiad cyhoeddus o ffilmiau. Cofnodwch deitlau'r ffilmiau, nifer y dangosiadau o'r ffilm honno, a'r niferoedd oedd yn bresennol. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys dangosiadau o berfformiadau byw ar ffilm.

## Ffilmiau (B-D)

Yng ngholofn B rhowch enw'r ffilm ac yng ngholofn C nodwch ai ffilm nodwedd ynteu ffilm fer ydoedd.

Diffiniadau:

- **Dwyieithog** – Cymraeg a Saesneg yn unig
- **Arall** – heblaw am y Gymraeg neu'r Saesneg
- **Amlieithog** – os oes ieithoedd eraill heblaw am y Gymraeg a Saesneg – fel Cymraeg, Saesneg a Groeg

## Cynnwys Amgen yn cael ei Ffrydio'n Fyw (E-F)

Rhowch fanylion unrhyw ffilmiau na chawsant eu cynhyrchu na'u golygu fel ffilmiau.

Mae a wnelo dangos cynnwys amgen sy'n cael ei ffrydio'n fyw yn unig â chynnwys na chafodd ei gynhyrchu na'i olygu fel ffilm. Rhaid i chi lenwi'r adran hon yn unig os yw eich rhaglen yn cynnwys dangosiadau o berfformiadau byw sy'n cael eu ffrydio i'ch lleoliad. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys perfformiadau gan Opera'r Met Efrog Newydd, y National Theatre neu Bale'r Bolshoi. Gall y rhain fod naill ai yn gynnwys sy'n cael ei ffrydio'n fyw, neu berfformiadau a ffilmiwyd yn fyw i'w dangos wedyn yn ddigidol. Cofnodwch nifer y digwyddiadau unigol a ddangoswyd, nifer y dangosiadau o'r digwyddiad hwnnw, a'r nifer oedd yn bresennol dan y ffurf berthnasol o gelfyddyd. Mae angen cynnwys y data yng nghyfanswm y dangosiadau a'r mynychiadau a rowch yn y colofnau wedyn.

## Dangosiadau ffilm – (G-L)

Beth yw cyfanswm y dangosiadau o'r holl ffilmiau nodwedd a rhai byr a ddangosoch yn y 6 mis diwethaf? Nodwch nifer y dangosiadau yn y categori ieithyddol perthnasol.

## Mynychiadau i ffilm – (M-S)

Beth yw cyfanswm y mynychiadau i ddangosiadau pob teitl? Cofnodwch hyn yn y categori ieithyddol perthnasol.

## Dangosiadau hygyrch o ffilmiau (T-W)

Yma hoffem wybod am hygyrchedd eich dangosiadau. Dewiswch o blith Arwyddeg, disgrifio sain, uwchdeitlau neu unrhyw fath arall o sgrinio hygyrch.

## Gweithgaredd wedi'i Dargedu (X-AG)

O'r ffilmiau a ddangoswyd gan eich mudiad, dywedwch wrthym faint oedd wedi eu targedu'n benodol at y grwpiau isod:

- Pobl Anabl
- Ethnig a diwylliannol amrywiol
- Siaradwyr Cymraeg
- Plant a Phobl Ifanc (25 ac iau)
- Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol
- Pobl Drawsrywiol
- Pobl Hŷn (50+ oed)
- Pobl â chred grefyddol benodol
- Merched beichiog a mamau newydd
- Teuluoedd

Os oedd dangosiadau'n targedu rhagor nag un grŵp, cofnodwch y gweithgarwch yn ôl pob grŵp perthnasol. Bydd y data a gesglir yn cael ei roi at ei gilydd yn ein hadroddiadau Cydraddoldeb a Monitro fel y gallwn edrych ar dueddiadau mewn gweithgaredd a dargedir yn benodol.

Os oedd dangosiadau wedi eu targedu at fwy nac un grŵp, yna cofnodwch y gweithgaredd hwn yn erbyn pob grŵp cymwys. **Os ydych wedi dewis unrhyw un o'r grwpiau, esboniwch yn fyr sut y cawsant eu targedu yng ngholofn AJ.**

## Ffilm â dargedwyd neu ymgysylltwyd â'r canlynol (AH-AN)

- Celfyddydau a Iechyd
- Pobl Ddigartref
- Teuluoedd ar incwm isel
- Ffoaduriaid a Cheiswyr lloches
- Cymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg (NEET yn Saesneg)

Os dewiswch y Celfyddydau ac Iechyd, gwiriwch y meini prawf ar gyfer y prosiect gan ddefnyddio'r nodyn hofran (triongl coch) yn y gell.

Os dewiswch unrhyw un o'r grwpiau, esboniwch yn fyr sut y cawsant eu targedu yn y golofn olaf, AN.

## Sylwadau (AN)

Mae colofn AN yn flwch sylwadau dewisol ichi  ddweud rhagor am gyrhaeddiad ac effaith eich gwaith.Ni fydd yr wybodaeth a dderbyniwn yn cael ei gynnwys yn ein hadroddiadau Ystadegau Swyddogol, ond gall gael ei gynnwys mewn unrhyw adroddiadau eraill a gyhoeddwn.

## Gwefan a’r cyfryngau cymdeithasol

Yma hoffem glywed am eich gwefan a'ch gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol. Hoffem weld faint o bobl rydych chi'n eu cyrraedd a pha mor dda maen nhw'n ymgysylltu â'ch cynnwys.

### Rhan 1: gwefan

Nifer yr ymweliadau â'ch gwefan (B-D)

Nodwch gyfanswm yr ymweliadau â'ch gwefan dros y 6 mis a nifer yr ymweliadau unigryw.

Cynnwys y wefan (E-Z)

Dewiswch o'r rhestr bob un o brif nodweddion eich gwefan. Gallai cymorth i ymwelwyr anabl gynnwys:

- defnyddio tagiau alt
- profi’r wefan am hygyrchedd gan ddefnyddio darllenydd sgrin
- bod y wefan yn gweithio os yw'r defnyddiwr yn dewis lliw cefndir gwahanol

Yng ngholofnau P-Z, rhowch ddadansoddiad canrannol o gyfran y wefan a ddefnyddiwch ar gyfer pob nodwedd (gallwch amcangyfrif).

Data cynulleidfa/ymwelwyr (AA-AH)

Ticiwch eich prif ddibenion dros gasglu o’ch gwefan ddata cynulleidfa/ymwelwyr.

### Rhan 2: llwyfannau cymdeithasol (AI-CM)

Yma mae rhestr o’r prif lwyfannau cymdeithasol. Nodwch ar ba lwyfannau y mae gennych broffil rheolaidd ar waith a beth a wnewch ar bob un.

Rydym ni’n casglu data cymdeithasol oherwydd bod sefydliadau sydd wedi symud ar-lein ers y cyfnod cloi am ddangos eu gwaith yno. Ond mae hyn yn rhywbeth newydd ac nad oes gan bawb y gallu i gasglu'r data. Felly nid yw hyn yn orfodol.

Dylai fod gan sefydliadau sydd â chyfrifon busnes/artistiaid fynediad at 'Mewnwelediadau' ar wahanol sianeli. Gallwch weld y metrigau am wahanol gyfnodau’n hawdd. Ond os ydych yn sefydliad llai heb y gallu i weld hyn, rhowch wybod inni yn y blwch sylwadau. **Er enghraifft, ar lawer o lwyfannau, dim ond 'Cyrraedd' mae modd ei weld gyda phroffil busnes.**

**Cysylltwch â ni i gael cymorth i weld eich mewnwelediadau.**

## Rhwydwaith/llwyfan

I bob un o'ch llwyfannau, nodwch:

- a yw ar gyfer adeiladu cynulleidfa a chyfathrebu â hi
- a ddefnyddiwch y llwyfan i gynnal cynnwys creadigol

## Dilynwyr

I bob llwyfan, nodwch faint o ddilynwyr sydd gennych (fel Ffrindiau Gweplyfr, Dilynwyr Instagram, Tanysgrifwyr YouTube)

## Cyrraedd

Mae 'cyrraedd' yn cyfeirio at faint o bobl unigol sydd wedi gweld (neu glywed) eich cynnwys. Mae hyn yn wahanol i 'effaith' sef y nifer o weithiau mae'r cynnwys wedi cael ei weld. Hoffem weld sawl person a welodd eich gwaith.

Mae gan lwyfanau a sefydliadau wahanol ffyrdd o fesur hyn. Felly dyma restr o'r llwyfannau a'u metrig cyrraedd:

- Gweplyfr – cyrraedd
- Trydar – cyrraedd
- Instagram – cyrraedd
- Snapchat – pob tro mae rhywbeth wedi'i weld
- TicToc – cyfanswm y gynulleidfa a gyrhaeddwyd
- YouTube – pob tro mae rhywbeth wedi'i weld
- Fimeo – pob tro mae rhywbeth wedi'i weld
- Soundcloud – pob tro mae rhywbeth wedi'i chwarae
- Spotify – pob tro mae rhywun wedi gwrando ar rywbeth
- AM - pob tro mae tudalen yn cael ei weld

Yn y golofn 'Arall', nodwch unrhyw fetrigau eraill am eich cyrraedd nad ydynt yn y rhestr – fel 'gweld storïau unigol' yn Instagram sydd i'w weld yn yr 'Archif'.

## Ymgysylltu

Gofynnwn hefyd am ffigyrau ymgysylltu i bob llwyfan, sef unrhyw weithred sy'n ymgysylltu â'ch cynnwys (hoffi, sylwadau, arbed a rhannu). Ar rai llwyfannau, gallai gynnwys sawl tro mae cynnwys fideo wedi'i weld neu fod pobl wedi gwrando ar draciau, am ragor na dim ond cael cip ar rywbeth wrth chwilio am rywbeth arall. Er enghraifft, mae Gweplyfr ac Instagram yn ystyried gweld rhywbeth am ragor na 3 eiliad yn 'ymgysylltiad'.

Weithiau mae hyn i'w weld ym Mewnwelediadau eich proffil ond ar gyfer cyfrifon nad ydynt yn rhai busnes, gellir gweld rhai ymgysylltiadau ar y porthiant.

**I sefydliadau heb Fewnwelediadau, bydd yn feichus i gyfrif pob ymgysylltiad. Felly gallwch ei amcangyfrif drwy gyfrif yr ymgysylltiadau am y 6 phost diwethaf a'u lluosi gan nifer y postiadau yn y 6 mis.**

**Mae gan lwyfanau a sefydliadau wahanol ffyrdd o fesur hyn. Felly dyma restr o'r llwyfannau a'u metrig ymgysylltu:**

- Gweplyfr – ymatebion (hoffi, clicio dolenni, rhannu, sylwadau, gweld fideos)
- Trydar - aildrydar, dilyn, ateb, hoffi, clicio dolenni
- Instagram – hoffi, sylwadau, arbed, rhannu, gweld fideos ar y porthiant, IGTV a Storïau
- Snapchat – sginluniau a gorffen storïau
- TicToc – hoffi, sylwadau, rhannu, gweld cynnwys
- YouTube – hoffi a rhannu
- Fimeo – hoffi a rhannu
- Soundcloud – hoffi ac ailrannu
- Spotify – hoffi
- AM - amherthnasol

Yn y golofn 'Arall', nodwch unrhyw fetrigau eraill am eich ymgysylltu nad ydynt yn y rhestr – fel cyfraddau ymgysylltu neu sawl gwaith y postioch yn y 6 mis.

## Rhan 3: uwchlwytho a gweld (CN-CP)

Yma nodwch yn y 6 mis diwethaf nifer yr uwchlwythiadau newydd o fideos a nifer y gweithiau a welwyd y cynnwys newydd a'r holl gynnwys.

## Lleoliadau Cyflwyno

Llenwch yr adran hon yn unig os yw eich lleoliad yn cyflwyno perfformiadau cyhoeddus byw. Os ydych yn Gwmni Cynhyrchu gyda'ch lleoliad eich hun, dylech gynnwys eich gwybodaeth yn adran Cwmniau Perfformio/Teithio yr arolwg.

### Cynyrchiadau (B-E)

Rhowch enw'r cynhyrchiad yng ngholofn B a defnyddiwch y gwymplen colofn C i nodi a oedd yn berfformiad digidol neu fyw. Yng ngholofn D nodwch a oedd y cynhyrchiad yn amatur neu'n broffesiynol, dyma'r diffiniad:

**Mae darn o waith yn broffesiynol os yw'r perfformwyr yn cael eu talu ac yn gweithio'n broffesiynol yn y diwydiant. Nid yw perfformiadau â thocynnau yn berfformiadau proffesiynol oni fydd y perfformwyr yn cael eu talu ac yn gweithio'n broffesiynol yn y diwydiant.**

Yng ngholofn E, dewiswch gelfyddyd eich cynhyrchiad.

### Iaith - (F-K)

Ar wahan i Ddawns, bydd angen i chi hefyd rannu iaith eich cynyrchiadau yn ôl iaith. Mae ein dewisiadau iaith yn cynnwys: **Saesneg, Cymraeg, Arall, Dwyieithog, Amlieithog a Iaith heb fod yn Berthnasol.**

Mae colofn L yn gofyn a gafodd y cynhyrchiad ei lwyfannu gan gwmni o'r tu allan i Brydain, dewiswch do neu naddo.

### Perfformiadau a mynychiadau – (M-N)

Beth yw cyfanswm y perfformiadau a'r mynychiadau ar gyfer pob cynhyrchiad, gan gynnwys perfformiadau digidol a byw?

### Perfformiadau hygyrch – (O-R)

Os perfformiwyd eich cynhyrchiad gan ddefnyddio dull hygyrch, dewiswch do neu naddo yn y categori perthnasol.

### Perfformiadau targedol – (S-AB)

O'r cynyrchiadau a nodwyd, dywedwch wrthym faint o'r cynyrchiadau hynny oedd wedi eu targedu'n benodol at y grwpiau isod. Hefyd, rhowch enwau'r cynyrchiadau a lle y'u cyflwynwyd:

- Pobl Anabl
- Grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- Plant a Phobl Ifanc (25 ac iau)

- Siaradwyr Cymraeg
- Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol
- Trawsrywiol
- Pobl Hŷn (50+ oed)
- Pobl â chred grefyddol benodol neu ddibenion eraill cysylltiedig â chrefydd
- Merched Beichiog a Mamau Newydd
- Teuluoedd

Os oedd cynyrchiadau wedi eu targedu at fwy nac un grŵp, yna cofnodwch y gweithgaredd hwn yn erbyn pobl grŵp sy'n gymwys.

Bydd y data a gesglir yn cael ei roi at ei gilydd yn ein hadroddiadau Cydraddoldeb a Monitro fel y gallwn edrych ar dueddiadau mewn gweithgaredd a dargedir yn benodol.

**Os ydych wedi dewis unrhyw un o'r grwpiau, esboniwch yn fyr sut y cawsant eu targedu yng ngholofn AJ.**

## Meysydd targedol (AC–AH)

Wnaeth y cynhyrchiad dargedu neu ymgysylltu â'r canlynol:

- Celfyddydau a Iechyd
- Pobl Ddigartref
- Teuluoedd ar incwm isel
- Ffoaduriaid a Cheiswyr lloches
- Cymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg (NEETs yn saesneg)

Os ydych wedi dewis y categori'r Celfyddydau ac Iechyd, gwiriwch fod eich prosiect yn cyd-fynd â'r meini prawf yn y nodyn hofran (triongl coch) yn y gell.

**Os dewiswch unrhyw un o'r grwpiau, esboniwch yn fyr sut y cawsant eu targedu yn y golofn olaf, AJ.**

## Perfformiadau wedi'u canslo – (AI)

Os canslwyd unrhyw un o'ch sioeau yn y 6 mis oherwydd y pandemig, gallwch nodi nifer y perfformiadau na ddigwyddodd. Ond os cânt eu haildrefnu, dylech eu cynnwys yn y 6 mis pan fydd y perfformiadau'n digwydd

## Sylwadau (AJ)

Yn ogystal â gwybodaeth dargedu ychwanegol, mae colofn AJ yn flwch sylwadau dewisol ichi ddweud rhagor am gyrhaeddiad ac effaith eich gwaith.

Ni fydd yr wybodaeth a dderbyniwn yn cael ei gynnwys yn ein hadroddiadau Ystadegau Swyddogol, ond gall gael ei gynnwys mewn unrhyw adroddiadau eraill a gyhoeddwn.

# Hyfforddiant, gweithdai neu ddigwyddiadau

## Math o brosiect (A-D)

Yng ngholofn B, nodwch o'r gwymplen a oedd y prosiect yn ddigwyddiad hyfforddi/sesiwn gweithdy, digwyddiad neu adnoddau/cylchlythyr sy’n targedu artistiaid/sefydliadau celfyddydol. Gallai digwyddiadau gynnwys cynhadledd, symposiwm marchnata neu ddigwyddiad rhwydweithio.

Rhowch enw'r prosiect yng ngholofn C ac yng ngholofn D nodwch o'r gwymplen a oedd yn sesiwn wyneb yn wyneb, yn ddigidol yn fyw neu’n ddigidol wedi'i recordio ymlaen llaw.

## Sesiynau a mynychiadau (E-G)

Nodwch o'r gwymplen ym mha iaith y cyflwynwyd y sesiwn yng ngholofn E.

Yng ngholofnau F ac G, cofnodwch gyfanswm y mynychiadau i sesiynau. Iaith y sesiwn y dylech ei chofnodi, ni waeth beth yw iaith y bobl yno. Os mai digidol oedd, dyma sawl gwaith y gwelwyd sesiwn.

Rhaid nodi sesiynau a mynychiadau a’u hiaith. Rhaid bob amser gael rhagor o fynychiadau na sesiynau a rhaid i iaith y sesiynau fod yr un peth ag iaith y mynychiadau. Er enghraifft, ni allech gael 3 sesiwn yn y Gymraeg ac 20 o fynychiadau dwyieithog – hyd yn oed os yw'r bobl yno’n siarad y ddwy iaith.

**Sesiynau:** mae un sesiwn wyneb yn wyneb yn para am hanner diwrnod neu lai. Felly bydd cwrs diwrnod llawn, 9am-5pm, yn ddwy sesiwn a gweithdy prynhawn, 1pm-6pm, yn un. I weithgarwch digidol, un uwchlwythiad o fideo wedi'i recordio ymlaen llaw neu un byw yw un sesiwn.

**Mynychiadau:** o ran wyneb yn wyneb, dyma nifer y mynychiadauau i'r sesiwn. O ran digidol, dyma sawl gwaith y gwelwyd uwchlwythiad o sesiwn ddigidol.

**Dyma ein dewisiadau iaith:** Cymraeg, Saesneg, Dwyieithog. Arall, Amlieithog ac Iaith amherthnasol. Mae diffiniad o bob un yn y canllawiau.

## Gweithgarwch targedol (H-Q)

O'r prosiectau yma, pa rai o'ch prosiectau a dargedodd y bobl ganlynol?

- Pobl anabl
- Pobl ddiwylliannol ac ethnig amrywiol
- Lesbiaid, hoywon neu ddeurywolion
- Siaradwyr Cymraeg
- Pobl drawsrywiol
- Pobl hŷn (50+ oed)

- Pobl grefyddol
- Menywod beichiog a mamau newydd
- Teuluoedd

Nodwch yn unig y grwpiau a dargedoch yn fwriadol yn hytrach na’r rhai a gafodd eu heffeithio beth bynnag.

Cynhwyswn y data yn ein hadroddiadau Cydraddoldeb a Monitro fel y gallwn weld tueddiadau mewn gweithgarwch. Os dewisoch unrhyw un o'r grwpiau, rhaid egluro sut yr ydych wedi’u targedu yn y golofn olaf (T).

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Yn y chwe mis diwethaf nodwch yng ngholofn R nifer y sesiynau/gweithdai hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus a hwylusoch ar gyfer athrawon neu a dargedai athrawon. Dewiswch gelfyddydol yr hyfforddiant yng ngholofn S os yw’n berthnasol.

## Sylwadau (AJ)

Yn ogystal â gwybodaeth dargedu ychwanegol, mae colofn AJ yn flwch sylwadau dewisol ichi ddweud rhagor am gyrhaeddiad ac effaith eich gwaith.

Ni fydd yr wybodaeth a dderbyniwn yn cael ei gynnwys yn ein hadroddiadau Ystadegau Swyddogol, ond gall gael ei gynnwys mewn unrhyw adroddiadau eraill a gyhoeddwn.

## Tenantiaid a Phreswyliaethau Artistiaid

Llenwch yr adran hon os oes gan eich mudiad denantiaid sy'n gweithio yn y diwydiannau artistig a diwylliannol. Gallai'r tenantiaid fod yn fudiadau proffesiynol neu artistiaid sy'n talu rhent neu ddim.

### Tenantiaid (B-D)

Nodwch nifer y tenantiaid sydd gan eich mudiad, nifer y bobl a gyflogir yn y mudiad (os gwyddoch), a'r nifer a gofnodwyd o oriau o gyngor neu gymorth yr ydych yn roi i'r tenantiaid hyn.

### Preswyliadau Arlunydd (E-H)

Os yw eich mudiad yn cyflwyno/hwyluso comisiynu preswyliaethau artistiaid, cofnodwch fanylion pob prosiect sydd yn rhedeg ar hyn o bryd, yr ydych yn gweithio arnynt ar hyn o bryd, a phob un a gwblhawyd.

Gallwch hefyd gynnwys manylion am nifer y preswyliaethau newydd a gontractiwyd dros y chwe mis diwethaf a all fod wedi cychwyn yn ystod y cyfnod hwn neu beidio.

### Llogi Lleoliadau (I-J)

Os ydych chi'n llogi ystafelloedd i sefydliadau eraill, cofnodwch hyn yng ngholofnau I-J. Nodwch gyfanswm y sefydliadau rydych chi wedi llogi ystafelloedd iddynt a chyfanswm y sesiynau neu'r digwyddiadau a gynhyrchir drwy logi ystafelloedd.

## Sgyrsiau a sesiynau holi ac ateb

Nodwch y sgyrsiau a/neu'r sesiynau holi ac ateb a drefnwch yn eich lleoliad neu rywle arall yng ngholofnau A-C.

Yng ngholofn D, nodwch a oedd y digwyddiad yn ddigidol neu wyneb yn wyneb a'i iaith o'r gwymplen yng ngholofn E.

Yn olaf yng ngholofn F, nodwch nifer y mynychiadau i'r sesiwn.

# Perfformiad amgylcheddol

## Systemau monitro amgylcheddol

Mae Systemau Rheoli Ynni yn rhoi fframwaith am ffordd systematig a pharhaus o wella effeithlonrwydd ynni sefydliadau. Dylai hyn ddigwydd yn unol â maint y sefydliad. Bydd sefydliad bach yn rheoli ynni'n wahanol i un mawr.

Os oes gennych system monitro amgylcheddol ar waith, nodwch y system yng ngholofnau B-F. Os dewisoch 'Arall', nodwch hyn yng ngholofn F. Os nad oes gennych system, nodwch hynny yng ngholofn G os ydych yn bwriadu cael un yn y 6 mis nesaf.

Os ydych chi'n gwybod pa system a rowch ar waith, nodwch hyn yng ngholofn H. Os nad ydych yn bwriadu rhoi system fonitro ar waith, esboniwch pam yng ngholofn I.

Mae Colofn J yn gofyn a oes gennych bolisi amgylcheddol, dysgwch ragor am systemau monitro amgylcheddol yma: [Systemau Rheoli Ynni | Busnes Cymru (gov.wales)]

## Cyflogaeth

Yma, gofynnwn am wybodaeth am weithwyr yn eich sefydliad. **Mae'r adran yn orfodol.**

Defnyddiwn y data yn ein hadroddiadau Cydraddoldeb a Monitro inni allu gweld tueddiadau yn y maes a gwneud cymariaethau.

## Nifer y gweithwyr (rhesi 5-16)

Nodwch y bobl y mae eich sefydliad yn eu cyflogi. Peidiwch â chyfrif unrhyw aelod o staff mewn rhagor nag un maes. Mae gan wirfoddolwyr, gweithwyr llawrydd ac aelodau o'ch corff llywodraethu/bwrdd ymddiriedolwyr eu hadran ar wahân.

**Dylech gyfrif staff sy'n gweithio 35 awr yr wythnos neu ragor fel rhai llawn amser.

**Dylech gyfrif staff sy'n gweithio llai na 35 awr yr wythnos fel rhai rhan-amser. Mae gan weithwyr amser llawn a rhan-amser yr hawl i gael:

- Tâl Salwch Statudol
- Tâl Mamolaeth Statudol
- Tâl Tadolaeth Statudol
- Tâl Mabwysiadu Statudol
- Rhannu Tâl Rhiant

**Mae Contract Achlysurol (a elwir hefyd yn gontract Dim Oriau) yn ôl diffiniad y llywodraeth ( https://www.gov.uk/contract-types-and-employer-responsibilities/zero-hour-contracts ) yn golygu nad oes unrhyw rwymedigaeth i gyflogwyr gynnig gwaith nac i weithwyr dderbyn gwaith.

## Hyfforddeion a phrentisiaid (rhesi 19-42)

Yma, gofynnwn am hyfforddeion neu brentisiaid sy'n gweithio yn eich sefydliad.

Mae lleoliadau gwaith dan hyfforddiant (â thâl ai peidio) yn diwallu anghenion y sefydliad. Caiff hyfforddeion fel arfer swydd ar ddiwedd eu hyfforddiant neu gyfweliad ymadael gydag adborth ffurfiol. https://www.gov.uk/employ-trainees

Mae prentisiaid dros 16 oed a byddant yn cyfuno gwaith gydag astudio i ddysgu sgiliau penodol i'r swydd gan ennill cymhwyster o TGAU neu un cyfwerth â gradd. Gweler ACAS: http://www.acas.org.uk/index.aspx?articleid=3816

Mae interniaid yn raddedigion neu'n israddedigion sy'n mynd drwy broses ddethol mewn rhaglen fwy ffurfiol ac sy'n derbyn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol (ai peidio): https://www.gov.uk/employment-rights-for-interns

## Cydraddoldeb (colofnau A-AG)

Beth yw amrywiaeth eich gweithwyr? Eglurwch sut rydych chi’n casglu'r ffigyrau yn y blwch sylwadau yn rhesi 89-93. Mae nifer o ffyrdd o gasglu'r wybodaeth yn gyfrinachol. Rydym ni wedi darparu copi o'n harolwg cydraddoldeb fel enghraifft yma. Rydym ni hefyd wedi cynnig y dewis o beidio â dweud drwy gydol y cwestiynau os nad yw'n bosibl casglu'r data.

## Isafswm cyflog cenedlaethol a chyflog byw (rhesi 83-85)

Dyma ragor o wybodaeth am y cyflog byw:

https://www.livingwage.org.uk/what-real-living-wage

## Gweithwyr Llawrydd

Yma, gofynnwn am wybodaeth am weithwyr llawrydd. Defnyddiwn y data yn ein hadroddiadau Cydraddoldeb a Monitro inni allu gweld tueddiadau yn y maes a gwneud cymariaethau. Mae’r adran yn orfodol.

Diffiniad o weithiwr llawrydd:

Mae’n tueddu i weithio ar nifer o gontractau tymor byr, gan gynnig gwasanaethau ac amser i wahanol sefydliadau yn gyfnewid am ffi. Weithiau gelwir gweithwyr llawrydd yn gontractwyr, gallant redeg eu busnes eu hunain ac fe'u diffinnir yn aml fel gweithwyr hunangyflogedig (er eu bod yn wahanol i bobl hunangyflogedig). Mae gweithwyr llawrydd yn wahanol i gontractwyr achlysurol (dim oriau). Dylech o hyd gynnwys y gweithwyr yma yn yr adran gyflogaeth.

### Nifer y gweithwyr llawrydd (rhes 4)

Beth yw cyfanswm y gweithwyr llawrydd a gomisiynwyd neu a benodwyd gennych yn y flwyddyn? Bydd hyn yn cynnwys unrhyw berson llawrydd a gyflogwyd yn y flwyddyn ariannol. Cynhwyswch bob gweithiwr llawrydd unwaith yn unig, hyd yn oed os ydynt wedi'u penodi gennych sawl gwaith yn ystod y flwyddyn.

### Gwybodaeth am gydraddoldeb (rhesi 16-24)

Os oes gennych y wybodaeth, dadansoddwch y cyfanswm yn rhes 4 yn ôl y categorïau o gydraddoldeb sydd yn y tabl.

Mae nodweddion gwarchodedig yn agweddau penodol ar bobl a ddiffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r gyfraith yn diogelu'r bobl felly rhag gwahaniaethu yn eu herbyn:

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Hil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Crefydd neu gred
- Rhywedd
- Cyfeiriadedd rhywiol

Rhag y mathau yma o wahaniaethu y mae'r gyfraith yn diogelu pobl: Nodweddion gwarchodedig | Equality and Human Rights Commission
https://www.equalityhumanrights.com/en/equality-act/protected-characteristics

Diogelir y Gymraeg dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg 2011.

## Dulliau o gasglu data (rhes 27)

Beth yw eich dulliau o gasglu'r wybodaeth am gydraddoldeb? Er enghraifft, a wnaethoch chi ddefnyddio holiadur cyfrinachol?

# Cyrff llywodraethu/byrddau ymddiriedolwyr

Yma, gofynnwn am wybodaeth am nifer yr aelodau ar eich corff llywodraethu/bwrdd ymddiriedolwyr (heb gynnwys eich Uwch Dîm Arwain/Rheoli).

**Dyma'r bobl sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol ac ariannol am eich sefydliad gan lywio ei waith, ei oruchwylio a sicrhau ei atebolrwydd.**

## Nifer yr aelodau ar eich bwrdd (rhesi 4-8)

Nodwch nifer yr aelodau yn ôl eu rhywedd. Gallwch ddewis 'mae'n well gyda fi beidio â dweud'.

## Cydraddoldeb (colofnau A–AG)

Llenwch y tablau i ddangos amrywiaeth eich bwrdd ac eglurwch sut mae eich sefydliad yn casglu'r data yn y blwch sylwadau. Mae nifer o ffyrdd o gasglu'r wybodaeth yn gyfrinachol oddi wrth eich gweithwyr. Darparwn gopi o'n harolwg cydraddoldeb fel enghraifft ichi ei weld. Mae dewis hefyd i beidio â dweud yn y cwestiynau os nad oes gennych y data.

## Beth yw ystyr amrywiaeth?

### Nodweddion gwarchodedig

Yn aml wrth sôn am gydraddoldeb mae pobl yn cyfeirio at y nodweddion gwarchodedig. Mae felly yn erbyn y gyfraith i wahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd:

- Oed
- Anabledd
- Bod yn drawsrywiol
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Hil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

Diogelir unigolion dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 rhag y mathau yma o wahaniaethu: Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Nodweddion gwarchodedig | Equality and Human Rights Commission https://www.equalityhumanrights.com/en/equality-act/protected-characteristics

Diogelir **y Gymraeg** gan **Ddeddf yr Iaith Gymraeg 199**3 a **Mesur y Gymraeg 2011**